Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynllun Hawliau Plant 2014

Trefniadau ar gyfer rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) pryd bynnag y bydd Gweinidogion Cymru'n gweithredu unrhyw rai o'u swyddogaethau

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gweld Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar:
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

I gael rhagor o wybodaeth:

CCUHP Gwneud Pethau'n Iawn
http://ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch blwch post Tîm Gweithredu'r Mesur:
childrenandyoungpeoplesrights@cymru.gsi.gov.uk

ISBN digidol 978 1 4734 1172 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21452

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog 3

1. Cyflwyniad 5

2. Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 5

3. Beth yw'r ddyletswydd ar Weinidogion? 6

4. Beth yw Cynllun Hawliau Plant? 7

5. Sut byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r Confensiwn? 7

6. Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant 8

7. Yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant 9

8. Atebolrwydd a Chydymffurfiaeth 11

9. Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn 12

10. Beth all plant a phobl ifanc (neu eu cynrychiolwyr) ei wneud os credant nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP? 13

11. Cefnogaeth i blant a phobol ifanc sy'n awyddus i gwyno am Weinidogion Cymru neu eu herio 14

12. Lle mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn sefyll ymysg dyletswyddau cyfreithiol ac asesiadau eraill Llywodraeth Cymru? 15

13. Newid y Cynllun hwn a Chynlluniau yn y Dyfodol 16

14. Pwerau Gweinidogion i newid deddfwriaeth bresennol o dan y Mesur 17

15. Pwy sy'n sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon? 17

**Atodiadau**


| | | |
|---|---|---|
| Atodiad 1: | Siartiau Llif Prosesau | 23 |
| Atodiad 2: | Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | 27 |
| Atodiad 3: | Sylw Cyffredinol 14 | 33 |
| Atodiad 4: | Rhestr (nad yw'n holl-gynhwysol) o gytundebau rhyngwladol perthnasol eraill a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU | 34 |

## Rhagair y Gweinidog

Rydym ni yng Nghymru yn falch iawn o roi cymaint o bwyslais ar hawliau'n plant a phobl ifanc. Mae'r ymrwymiad i brif-ffrydio ystyriaeth o hawliau plant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru yn un cwbl ddiamwys. Gwelwyd hyn yn hanesyddol gyda Chymru'n arwain y ffordd yn y DU trwy sefydlu Comisiynydd Plant Cymru a'r mesur arloesol, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Nod y Mesur yw newid diwylliant, ynghyd â meithrin gwell dealltwriaeth a mwy o ymwybyddiaeth.

Ar 27 Mawrth 2012, cafodd y Cynllun Hawliau Plant cyntaf ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac rwyf yn falch iawn o gyflwyno'n Cynllun Hawliau Plant newydd yn 2014. Mae hwn yn gam arall pwysig i Gymru. Fel cenedl, parhawn i wthio agenda hawliau plant yn rhyngwladol, ond mae'r teimlad o gyfrifoldeb yn rhy fawr i ganiatáu inni orffwys ar ein rhwyfau, a rhaid inni ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau i blant a phobl ifanc ar adeg pan maent yn wynebu cymaint o heriau sylweddol o sawl cyfeiriad.

Mae'r Cynllun newydd hwn yn nodi'n glir y trefniadau sydd gennym ar waith fel Gweinidogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth weithredu unrhyw un neu ragor o'n swyddogaethau. Rydym wedi ymateb i sylwadau ac adborth o'r adroddiad cydymffurfio cyntaf ar y Cynllun gwreiddiol, sydd wedi arwain at Gynllun llawer cryfach gan ein bod ni wedi dysgu cryn dipyn mewn cyfnod byr iawn.

Bydd y Cynllun yn sicrhau bod hawliau plant yn ymwreiddio'n ddyfnach o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd yn gwella'n ffordd o wneud penderfyniadau ac o ddatblygu polisïau – a fydd yn ei dro'n arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc. Wrth adolygu diben a chynnwys y Cynllun rydym wedi elwa o gydweithio â'n rhanddeiliaid. Fe wnaeth plant a phobl ifanc hefyd gyfranogi fel rhan o'r broses hon, a gobeithiaf y gallant weld eu cyfraniadau'n cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun.

Gan ein bod ni'n torri tir newydd, byddwn yn parhau i ddysgu mwy wrth inni weithredu'r Mesur yn ei flynyddoedd ffurfiannol. Dyna pam mae'r Cynllun yn ymrwymo i gynnig tryloywder a her o fewn ein prosesau, a adlewyrchir mewn ymrwymiad i gyhoeddi adroddiad cydymffurfio bob 2.5 mlynedd.

Un peth allweddol sydd wedi cael sylw gennym yw ein 'Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant'. Mae hwn yn pennu'r broses ar gyfer profi bod hawliau plant yn cael eu dadansoddi a'u hystyried gyda thrylwyredd addas yn ein gwaith. Mae'r polisi newydd o gyhoeddi'r Asesiadau hyn yn rhoi tryloywder pellach a chyfle i eraill gyfrannu a chynnig adborth.

Mae'r Mesur eisoes wedi gwneud gwahaniaeth gyda Gweinidogion yn cyfeirio'n benodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn wrth wneud eu penderfyniadau a gydag Aelodau Cynulliad yn defnyddio'r

Confensiwn fel offeryn craffu. Os yw'r ymrwymiad gwleidyddol yng Nghymru'n arwydd o lwyddiant y Mesur yn y dyfodol, rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn.

Wrth inni roi lle canolog i blant a phobl ifanc yn ein gwaith, yr her fawr i bawb ohonom fydd sicrhau bod yr ymrwymiad hwnnw'n arwain at gyfoethogi profiadau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw.

## Cynllun Hawliau Plant 2014

### 1. Cyflwyniad

Cafodd ‘Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011’ (y cyfeirir ato fel “y Mesur” yng ngweddill y ddogfen hon) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2011. Mae’r Mesur yn ymgorffori ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP neu “y Confensiwn”), a’r Protocolau Dewisol, yng nghyfraith Cymru. Dyma’r tro cyntaf i unrhyw lywodraeth yn y Deyrnas Unedig fod o dan ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant.

Er mai ar gyfer staff Llywodraeth Cymru y bwriedir y ddogfen hon, mae ganddi rôl hefyd o safbwynt amlinellu i’r cyhoedd yng Nghymru y trefniadau ymarferol sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith er mwyn sichrau bod hawliau plant yn cael eu hystyried wrth iddynt gyflawni eu gwaith.

### 2. Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

Confensiwn rhyngwladol yw’r CCUHP[1] sy’n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn ar Hawliau’r Plentyn gan Aelod-wladwriaethau’r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

Ar 16 Rhagfyr 1991, cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y Confensiwn, a daeth i rym yn y Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992. Mae’r Deyrnas Unedig hefyd wedi cadarnhau dau ‘Brotocol Dewisol’[2] i’r Confensiwn.

Mae’n ofynnol o dan erthygl 44(1)(b) y CCUHP i wledydd sydd wedi ei gadarnhau gyflwyno i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (“y Pwyllgor”) adroddiad sy’n rhoi manylion y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at weithredu’n llawn y Confensiwn a’i Brotocolau Dewisol. Gall y gwledydd hyn hefyd ymddangos gerbron y Pwyllgor.

Yn 2002 aeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ati i ddatblygu’r Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, a oedd yn crynhoi’r CCUHP fel sylfaen ar gyfer cynllunio a phenderfynu ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol ac yn lleol.

Ym mis Ionawr 2004 mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Confensiwn fel sylfaen ar gyfer ei bolisïau ynghylch plant a phobl ifanc. I ddibenion y Cynllun hwn, mae “plant” yn cyfeirio at blant a phobl ifanc hyd at 18 oed er mwyn cyfateb i’r Confensiwn ei hun.

Yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pryd y gwahanwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru oddi wrth Lywodraeth Cymru, daeth yr

[1] http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRC/Pages/CRCIndex.aspx
[2] http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRC/Pages/CRCIndex.aspx

ymrwymiad i'r Confensiwn yn ymrwymiad ar Weinidogion Cymru. Gweinidogion Cymru sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru?

Mae Adran 1 o'r Mesur yn datgan y bydd, o 1 Mai 2014 ymlaen:

Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer **unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau,** roi sylw dyledus i ofynion -

(a) *Rhan I o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,*
(b) *Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac*
(c) *Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.*

Ystyr **swyddogaethau** Gweinidogion yw:

- *Yr holl bethau y gall Gweinidogion eu gwneud oherwydd bod deddfwriaeth wedi rhoi i'r Gweinidogion y pŵer i wneud hynny, a'r*
- *Holl bethau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud oherwydd bod deddfwriaeth wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud hynny.*

Golyga hyn fod y ddyletswydd yn gymwys pryd bynnag y mae Gweinidogion yn defnyddio unrhyw un neu ragor o'u pwerau i wneud penderfyniad, neu lle bo dyletswydd arnynt i wneud penderfyniad. Caiff holl gamau Llywodraeth Cymru eu cymryd gan ddefnyddio pwerau neu ddyletswyddau'r Gweinidogion.

Cyfeirir at y ddyletswydd a orfodir gan adran 1 o'r Mesur uchod fel y '**ddyletswydd sylw dyledus**'.

Mae'r Mesur yn gosod y ddyletswydd ar Weinidogion a rhaid iddynt fod yn llwyr ymwybodol o'r ddyletswydd pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn berthnasol i Weinidogion hyd yn oed lle bo staff Llywodraeth Cymru[3] yn gweithredu swyddogaethau ar ran Gweinidogion. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i Ddirprwy Weinidogion hefyd.

Mae'r term sylw dyledus yn gofyn am ystyriaeth gytbwys o faterion, yn yr achos hwn, erthyglau'r CCUHP. Golyga hyn fod yn rhaid i Weinidogion feddwl ynghylch sut mae'r hyn a wnânt yn gysylltiedig â'r hawliau a'r ymrwymiadau

[3] Rhywun a gyflogir yn y gwasanaeth sifil; rhywun a gyflogir gan y Llywodraeth.

yn y CCUHP. Wrth adnabod unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, rhaid i Weinidogion ystyried sut i osgoi neu leihau'r effaith hwn. Rhaid i Weinidogion ystyried hefyd sut, trwy ddefnyddio'u swyddogaethau, y gallant wella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau. Ar ôl ystyried hyn, mae angen rhoi ystyriaeth gytbwys (sylw dyledus) i'r canlyniad gan bwyso a mesur hyn yn erbyn y ffactorau eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

## 4. Beth yw Cynllun Hawliau Plant?

Caiff Cynllun Hawliau Plant ei wneud o dan Adran 2 o'r Mesur, sy'n datgan bod yn rhaid i Weinidogion wneud cynllun o'r fath i egluro'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i sicrhau eu bod hwy'n cydymffurfio â'u dyletswydd o roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cred Llywodraeth Cymru y bydd ei Chynllun Hawliau Plant yn:

- sefydlu prosesau trylwyr i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 1 o'r Mesur; y ddyletswydd 'sylw dyledus';
- rhoi tryloywder ynghylch y prosesau a ddilynir;
- galluogi staff Llywodraeth Cymru i gynorthwyo Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd; a
- rhoi gwybodaeth ar sut y gellir dal Gweinidogion Cymru'n atebol wrth gydymffufio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

Mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn nodi'r trefniadau sydd gan y Gweinidogion ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir arnynt gan y Mesur o 1 Mai 2014 ymlaen – rhoi sylw dyledus i'r CCUPH wrth weithredu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Elfen bwysig o hyn yw galluogi staff i roi cymorth digonol i Weinidogion gydymffurfio â'r ddyletswydd.

## 5. Sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn?

Bydd Gweinidogion yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:

- sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar waith, a'u bod yn cael eu hyrwyddo, a'u defnyddio (gweler rhoi 6);
- rhoi proses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar waith (gweler adran 7);
- trefnu mecanweithiau Atebolrwydd a Chydymffurfiaeth (gweler adran 8);

- rhoi gwybodaeth a chanllawiau ar sut y gellir dal Gweinidogion Cymru'n atebol am gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus (gweler adrannau 11-13);

- sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei adolygu pan fo angen hynny (gweler adran 14); a

- sicrhau dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau o safbwynt yr holl elfennau hyn (gweler adran 16).

## 6. Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i addysgu a hyfforddi staff Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r adnoddau'r ydym wedi eu datblygu. Mae amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i staff Llywodraeth Cymru i roi gwybodaeth a dealltwriaeth iddynt o'r Confensiwn ac i'w helpu i ddeall y broses y mae angen iddynt ei dilyn i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

Mae gennym strategaeth fewnol ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant, sy'n dod â'r gwahanol offer a dulliau hyfforddi at ei gilydd, ac sy'n darparu ar gyfer anghenion hyfforddiant yn unol â chyfrifoldebau staff.
Mae'r Tîm Gweithredu'n arwain ar symud y strategaeth hon ymlaen ac ar sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru'n cael eu diweddaru ar ddatblygiadau, fel y maent yn digwydd.

Bydd pawb o'r staff yn cael gwybod am yr amrywiaeth o hyfforddiant sydd ar gael ac mae disgwyliad y bydd staff yn manteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir. Mae Tîm Gweithredu'r Mesur yn monitro'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant drwy bob Adran ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae Uwch Reolwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfle i ddilyn hyfforddiant.

Mae adnodd rhyngrwyd penodol ar gyfer y Confensiwn ar gael ar y fewnrwyd i gydweithwyr ei ddefnyddio; mae hyn yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin, taflenni gwybodaeth, dogfennaeth ddeddfwriaethol lawn ac erthyglau llawn CCUHP, ynghyd ag amrywiaeth o wefannau allanol sy'n ymwneud â hawliau plant. Bydd gwerthuso parhaus yn sicrhau bod yr amrywiol adnoddau a dulliau hyfforddi'n addas i'r diben.

Bydd yr Adroddiad Cydymffurfio sy'n ofynnol o dan adran 4 o'r Mesur yn cynnwys manylion o'r amrywiol ffurfiau o hyfforddiant a drefnwyr a'r nifer sy'n derbyn yr hyfforddiant a grybwyllir gan yr Adran.

### Hyfforddiant ar-lein i staff Llywodraeth Cymru

Mae'r hyfforddiant ar-lein yn chwarae rhan bwysig mewn darparu hyfforddiant digonol a systematig i helpu staff ennill gwell dealltwriaeth o'r CCUHP. Mae'n rhoi cyflwyniad i'r CCUHP a'r ffordd y mae wedi'i wreiddio yng nghyfraith Cymru.

Mae'r hyfforddiant wedi cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn helpu staff i roi ystyriaeth gytbwys i sut y gall eu gwaith effeithio ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc, fel y'u pennir yn y CCUHP, ac i roi dewisiadau i Weinidogion a'u cynghori'n unol â hynny.

### Hyfforddiant wyneb yn wyneb

Cynhelir cyflwyniadau ffurfiol ynghylch y Mesur a'i oblygiadau ar draws Adrannau Llywodraeth Cymru gan aelodau Tîm Gweithredu'r Mesur i hysbysu a chynghori staff a'u cyfeirio at ffynonellau perthnasol o wybodaeth.

Cynigir sesiynau mwy anffurfiol hefyd naill ai i dimau neu unigolion, a'r rhain wedi'u haddasu yn ôl yr angen.

### Hyfforddiant arbenigol i staff a dargedir

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i roi hyfforddiant arbenigol ac wedi'i dargedu i staff sy'n arwain ar ddatblygu polisi a deddfwriaeth neu sy'n ymwneud â hynny.

Mae hyfforddiant penodol wedi cael ei roi i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn parhau.

## 7. Y broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae proses glir wedi cael ei gosod i helpu Gweinidogion a staff i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – ac mae wedi ei nodi mewn siartiau llif yn Atodiad 1.

Mae'r broses yn annog y defnyddiwr i feddwl ynghylch perthnasedd posibl ac, os felly, effaith eu darn o waith ar blant a phobl ifanc, ac ystyried hyn o fewn cyd-destun hawliau plant fel y'u nodir yn y Confensiwn. Byddai hyn yn berthnasol pan maent yn cynnig dewisiadau a chyngor i Weinidogion a hefyd pan maent yn cyflawni swyddogaethau Gweinidogion.

Gall y broses amrywio o feddwl ynghylch effaith penderfyniadau ar blant wrth weithio o ddydd i ddydd, i weithredu ffurfiol trwy ddefnyddio templed asesiad effaith strwythuredig ynghyd â chofnod o'r canlyniad a'r penderfyniadau.

Ar y cychwyn, bydd angen i staff Llywodraeth Cymru ddefnyddio synnwyr cyffredin a doethineb wrth benderfynu a yw'r penderfyniad hwnnw'n berthnasol i blant a phobl ifanc neu beidio, a graddau tebygol yr effaith arnynt. Mae angen i hyn gael ei wneud yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael ar effaith.

Bydd angen i staff ystyried a yw'r wybodaeth sydd ar gael yn ddigonol iddynt ffurfio barn ar berthnasedd i blant a phobl ifanc ac ar effaith arnynt. Gall staff holi eu cydweithwyr a/neu Dîm Gweithredu'r Mesur, a defnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth, i'w helpu yn yr asesiad cychwynnol hwn.

## Pan fo penderfyniadau'n berthnasol i blant a phobl ifanc ac yn effeithio arnynt

Os daw staff i'r farn fod y penderfyniad yn berthnasol i blant a phobl ifanc a'i fod yn effeithio arnynt, byddant yn rhoi'r templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar waith. Mae chwe cham yn y templed i arwain y defnyddiwr trwy'r broses o roi sylw dyledus i'r CCUHP ac o sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 1 o'r Mesur. Mae copi o dempled yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'w gael yn atodiad 2.

O fewn y templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mae llawer o ysgogiadau i helpu staff yn eu dadansoddiad, er mwyn profi bod hawliau plant wedi cael eu hystyried ac y manteisiwyd ar bob cyfle i adnabod ffyrdd o wireddu'r hawliau perthnasol cyn i Weinidogion wneud penderfyniadau. Mae templed yr asesiad o effaith yn galluogi staff i farnu'r ystyriaeth briodol a'r pwysau sy'n ofynnol wrth iddynt gynghori Gweinidogion.

Mae cysylltiadau amlwg rhwng templed yr asesiad o effaith a phob o'r camau o wneud penderfyniadau gan Weinidogion ac fe'i gweithredir gan bob Adran. Lle bo'r penderfyniad yn ymwneud â maes presennol o waith, dylai staff gyfeirio at unrhyw Asesiad o Effaith a gwblhawyd ynghynt sy'n berthnasol i'r penderfyniad, a phenderfynu:

- a yw'r asesiad yn dal yn berthnasol; neu
- a oes angen diweddaru/diwygio'r asesiad; neu
- a ddylid gwneud asesiad newydd.

O fewn canllawiau gweithdrefnol, anogir swyddogion i ddefnyddio'r templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r afer o gyd-drafod â rhanddeiliaid wrth ymgynghori.

Mae'n ofynnol i bob Asesiad a gwblheir gael ei anfon ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur i ddibenion cofnodi a monitro.

## Pan nad yw penderfyniadau'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Ni fydd pob penderfyniad a gweithred a wneir gan Weinidogion Cymru, neu a awdurdodir gan Weinidogion Cymru o dan y trefniadau presennol, yn berthnasol i blant a phobl ifanc. Un agwedd o broses effeithiol o Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yw adnabod pa bryd mae asesiad yn ofynnol ac angen cwblhau'r templed asesu.

Ni fydd yr Asesiad o'r Effaith yn berthnasol wrth weithredu pob swyddogaeth weinidogol (boed honno'n cael ei gweithredu'n uniongyrchol gan y Gweinidog neu gan staff Llywodraeth Cymru ar ran y Gweinidog).

Lle na chwblheir y templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, bydd angen i staff ystyried a ddylid cofnodi unrhyw brosesau a arweiniodd at y penderfyniad i beidio â chyflawni'r asesiad o'r effaith.

## Proses gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

Bydd pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a wneir yn ôl deddfwriaeth yn cael ei gyhoeddi. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys, er enghraifft, rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol.

O ran penderfyniadau anneddfwriaethol, bydd pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu rhestru ar wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk) a byddant ar gael ar gais trwy'r blwch postio pwrpasol **CRIA@wales.gsi.gov.uk**. Fodd bynnag, gall Gweinidogion unigol ddewis cyhoeddi Asesiadau penodol.

Bydd Gweinidogion yn ystyried sut y gall cyd-drafod effeithiol gyda rhanddeiliaid wella'r broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Byddant yn cael eu hannog i gyhoeddi Asesiadau fel rhan o unrhyw ymgynghori cyhoeddus er mwyn cael adborth ar gynnwys a chasgliadau'r Asesiad.

Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru i staff yn amlinellu'n glir y disgwyliad o safbwynt cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Mae'n ddigon posibl y bydd Llywodraeth Cymru'n newid y trefniadau ymarferol sydd ar waith fel y gellir cwblhau Asesiadau o fewn ymarferiad ehangach i asesu effaith cynigion.

## 8. Atebolrwydd a Chydymffurfiaeth

Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo unrhyw Gynllun Hawliau Plant ac mae ganddo felly rôl wrth graffu ar y trefniadau sydd gan Weinidogion Cymru ar waith i gydymffurfio â'u dyletswydd sylw dyledus.

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion gyhoeddi adroddiad bob 5 mlynedd yn esbonio sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein hadroddiad Cydymffurfio cyntaf ar 31 Ionawr 2013.

Mae Gweinidogion wedi adolygu'r cylch adrodd ac wedi ymrwymo i greu adroddiadau canol-tymor. Bydd yr adroddiad cydymffurfio felly'n cael ei gyhoeddi pob 2½ blwyddyn. Bydd cyhoeddi adroddiad canol tymor yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried effeithiolrwydd y trefniadau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith, yn unol â'r Cynllun hwn.

Mae'r ymrwymiad hwn i dryloywder a chyd-drafod adeiladol, ynghyd â'r cytundeb sy'n ymwneud â phroses cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn rhoi cyfle parhaus i randdeiliaid a phartïon perthnasol eraill ddal Gweinidogion yn atebol ar y ffordd y maent yn gweithredu'r Mesur, ac i fynegi eu sylwadau ar y cynnydd a wneir.

Bydd Gweinidogion yn sicrhau dadl mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar gynnwys yr adroddiad cydymffurfio nesaf. Gellir gofyn hefyd i Weinidogion roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad i esbonio beth maent wedi'i wneud a gellir gofyn iddynt ymateb i gwestiynau gan Aelodau Cynulliad.

O ganlyniad i'r craffu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd, gall Gweinidogion adnabod camau pellach y gall Llywodraeth Cymru ystyried eu cymryd.

### Gofynion adrodd

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i adrodd ar elfennau penodol o gydymffurfio ag adran 1 o'r Mesur. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- yr hyfforddiant sydd ar gael (gweler adran 6 o'r ymrwymiad penodol i adrodd);
- trosolwg o waith grŵp gweithredu'r Cynllun Hawliau Plant;
- trosolwg o waith Tîm Gweithredu'r Mesur;
- y nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a wnaed, wedi eu hadrodd fesul adran;
- effeithiolrwydd y broses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, gan gynnwys enghreifftiau penodol;
- y gweithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r CCUHP o dan adran 5 o'r Mesur.

### Gwerthuso'r ffordd y gweithredir y Mesur

Unwaith y bydd rhan derfynol y Mesur wedi cychwyn ac wedi ymwreiddio, byddwn yn ceisio gwerthuso sut mae'r amrediad lawn o ddyletswyddau wedi cael eu gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion yn rhoi diweddariad ar y gwaith hwn fel rhan o'r adroddiad cydymffurfio.

## 9. Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r CCUHP

Mae Adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Gweinidogion i gymryd camau addas i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol. Bwriad y ddyletswydd hon yw rhoi grym i ymrwymiadau sydd yn erthygl 42 o'r Confensiwn.

Y Tîm Gweithredu sy'n arwain ar y maes hwn o waith ar ran Gweinidogion. Fodd bynnag, mae sefydliadau eraill hefyd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a hyrwyddo gwybodaeth amdano a dealltwriaeth ohono, megis Comisiynydd Plant Cymru a rhanddeiliaid allanol a phartïon perthnasol eraill. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i archwilio cyfleoedd, lle bo'n briodol, i weithio gydag eraill er mwyn sicrhau'r effaith mwyaf bosibl.

Fel y nodwyd eisoes, bydd diweddariad ar ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd hon yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau cydymffurfio.

Cred Llywodraeth Cymru fod hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn yn holl bwysig er mwyn galluogi'r cyhoedd, ac yn enwedig plant a phobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy, i ddeall pa bryd

y mae rhywbeth sy'n effeithio arnynt yn ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd sylw dyledus.

Mae'n bwysig hefyd codi ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau ar gael i blant a phobl ifanc sy'n gallu eu helpu hwy i ddeall diben y Mesur ac i herio neu holi ynghylch y ffordd y caiff y ddyletswydd sylw dyledus ei gweithredu.

Bydd Gweinidogion yn ceisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwybod am y Mesur fel y gallant gynghori plant a phobl ifanc yn iawn a'u cefnogi os bydd angen.

**10. Beth all plant a phobl ifanc (neu eu cynrychiolwyr) ei wneud os credant nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP?**

Os yw plant a phobl ifanc yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, efallai y byddant, yn unigol neu mewn grŵp, yn dymuno:

- Cysylltu â Llywodraeth Cymru i godi'r mater. Fe fyddai arnom bob amser eisiau clywed gan blant a phobl ifanc, neu'r rheini sy'n eu cynrychioli, os oes rhywbeth nad yw'n iawn a byddai arnom eisiau ceisio datrys y mater pe bai hynny'n bosibl. Byddem yn gobeithio gwneud hyn yn gyflym ac yn effeithiol. Mae gwybodaeth ynghylch sut i gysylltu â Llywodraeth Cymru Gweinidogion unigol i'w chael ar Wefan Llywodraeth Cymru.

- Cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru. Mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i adolygu'r ffordd y gweithredir swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Os oes unrhyw un yn credu nad yw Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, gallant gysylltu â'r Comisiynydd Plant i ddweud eu cŵyn.

  Byddai'r Comisiynydd wedyn yn penderfynu ar y peth gorau i'w wneud, a gallai hyn olygu:
    - rhoi cyngor addas iddynt;
    - cefnogi'r person(au) wrth iddynt herio Gweinidogion;
    - defnyddio pwerau cyfreithiol y Comisiynydd a chynnal adolygiad yn ymwneud â'r mater.

- Cysylltu â'u Haelod Cynulliad. Gall Aelodau'r Cynulliad godi materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc gyda Llywodraeth Cymru neu yn y Cynulliad. Mae gwybodaeth ar Aelodau'r Cynulliad ar gael yma: Aelodau'r Cynulliad;

- Anfon deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os bydd deg neu'n fwy o bobl wedi arwyddo deiseb, gall plant ddefnyddio hyn i dynnu sylw'r Cynulliad at benderfyniad sy'n effeithio ar eu bywydau lle credant nad yw'r CCUHP wedi cael ei ystyried. Mae gan y Cynulliad bwerau i alw Gweinidogion Cymru ger ei fron a gofyn iddynt sut y maent wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP wrth weithredu unrhyw un neu fwy o'u

swyddogaethau. Dyma ddolen i fwy o wybodaeth am ddeisebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: [Deisebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;]

- Cyflwyno cais i'r llys i ofyn i'r llys ddyfarnu a yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Gelwir hyn yn Adolygiad Barnwrol. Dylid cyflwyno ceisiadau am Adolygiad Barnwrol cyn gynted â phosibl – fel arfer, rhaid gwneud hynny dim hwyrach na thri mis ar ôl i Weinidogion Cymru wneud eu penderfyniad. Weithiau bydd llys yn caniatáu i unigolyn gyflwyno cais yn hwyr os gall yr unigolyn ddangos bod ganddo reswm da iawn dros beidio â chyflwyno cais yn gynharach. Er bod gan blant bob hawl i wneud cais am Adolygiad Barnwrol, ein gobaith fyddai y gellid datrys y mater drwy'r trefniadau eraill a restrwyd eisoes.

  Dyna pam yr ydym yn ceisio sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith a fydd yn sicrhau bod ystyriaeth a phwyslais addas yn cael ei roi i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, os bydd plant yn dewis dilyn yr opsiwn hwn, gall y sefydliadau isod gynnig cyngor a chymorth. Mae esboniad pellach ynghylch Adolygiadau Barnwrol i'w gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: [Judiciary.gov.uk].

  I geisio Adolygiad Barnwrol, byddai angen cyngor cyfreithiol arnoch. Dyma ddolen at wybodaeth bellach: [Cymdeithas y Gyfraith.]

## 11. Cymorth i blant sy'n awyddus i gwyno am Weinidogion Cymru neu eu herio

Pan fydd ar blant a phobl ifanc, fel unigolyn neu fel grŵp, eisiau herio'r Gweinidog pan deimlant nad yw Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, efallai yr hoffent gysylltu ag un neu fwy o'r canlynol:

- Mae **Llywodraeth Cymru** wedi datblygu fersiwn gryno o'i gweithdrefn gwynion corfforaethol i blant, pobl ifanc neu eu cynrychiolwyr ei defnyddio. Mae'r Weithdrefn Gwynion yn rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y gallent herio Gweinidogion pe bernid nad yw Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'r fersiwn gryno o'r Weithdrefn Gwynion ar gael ar: [Fersiwn Gryno'r Weithdrefn Gwynion;]

- Mae gan **Gomisiynydd Plant Cymru** y pŵer i droi cyngor, cynrychiolaeth a chymorth i blant a phobl ifanc a allai ddymuno herio Gweinidogion. Mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i adolygu sut mae gwaith Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r canlynol yn ddolen i wefan y Comisiynydd: [Comisiynydd Plant Cymru].

- **Unrhyw oedolyn y maent yn ymddiried ynddo** ac sy'n gallu treulio amser yn eu cefnogi. Gallai fod yn berthynas, yn gyfaill neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Dylid ei ystyried yn eiriolwr dros blant.

- Ar lefel leol, mae nifer o **ddarparwyr eiriolaeth** ar gael ar hyn o bryd a allai roi cymorth a chyngor i blant a phobl ifanc. Ar y cyfan mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc yr ystyrir eu bod yn agored i niwed. Fodd bynnag, gallent helpu plant a phobl ifanc o fewn y categorïau hyn i herio penderfyniadau Gweinidogion. Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi gwybodaeth ynghylch pa ddarparwyr eiriolaeth sydd ym mha ardal: Gwasanaethau eirioli yn eich ardal chi.

- **CLIC** – Dyma'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc (11-25) yng Nghymru. Sianel ar-lein ydyw sy'n cynnig gwybodaeth, newyddion a chyngor i'r holl bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru ar amrywiaeth eang o bynciau a materion, gan gynnwys lle i gael cymorth yn eu hardal leol. Mae'r ddolen ganlynol yn mynd â chi at wefan CLIC:CLIConline.

- **MEIC** – Dyma'r llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae eiriolwyr Meic yn helpu plant a phobl ifanc i gael eu clywed gan eraill. Mae Meic ar gael i gynghori a rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc sy'n dymuno herio Gweinidogion. Gallant hyd yn oed gysylltu ag eraill ar eu rhan. Dyma'r ddolen i wefan Meic: MEIC Cymru.

## 12. Lle mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP yn sefyll ymysg dyletswyddau cyfreithiol ac asesiadau eraill Llywodraeth Cymru?

Mae cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wedi'i sefydlu'n gadarn ochr yn ochr â dyletswyddau cyfreithiol eraill ar Weinidogion megis y Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[4], deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a'r ddyletswydd i fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae hefyd gytuniadau sydd wedi cael eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU ac sydd felly'n rhwymo mewn cyfraith. Mae rhai o'r darpariaethau yn y cytuniadau hyn yn berthnasol i blant ac yn cynnwys darpariaethau manylach na'r CCUHP ar rai hawliau (ee ar anableddau) ac maent felly'n berthnasol. Mae rhestr o gytuniadau rhyngwladol perthnasol i'w gweld yn atodiad 4.

Bydd Gweinidogion Cymru'n sicrhau y bydd y prosesau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cydlynu ac yn cael yr un flaenoriaeth ag asesiadau effaith eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru. Os caiff y trefniadau asesiadau effaith ehangach eu hadolygu neu eu diwygio, bydd Gweinidogion

[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/made

yn sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ystyriaeth lawn ac na fydd unrhyw lastwreiddio wrth weithredu'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Os bydd newid yn y prosesau asesiadau o effaith, bydd Gweinidogion yn adrodd ar unrhyw newidiadau ac yn esbonio sut mae'r ddyletswydd sylw dyledus wedi cael ei chysoni a'i sicrhau o fewn proses ddiwygiedig. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiadau cydymffurfio.

Yn unol â'r Mesur, ni effeithir ar yr elfennau hanfodol o fewn y Cynllun Hawliau Plant oni bai y gweithredir y broses o ddiwygio'r cynllun fel y'i pennir yn adran 3 o'r Mesur.

## 13. Newid y Cynllun hwn a Chynlluniau'r Dyfodol

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru a phobl briodol eraill, ac ymgynghori â hwy, wrth baratoi Cynllun newydd[5] neu wrth newid yr un presennol hwn. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gyhoeddi Cynllun newydd neu ddiwygiedig[6]. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw newidiadau i'r Cynllun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion roi sylw i rai dogfennau penodol wrth baratoi Cynllun newydd neu ddiwygio un sy'n bod eisoes[7]. Mae'r rhain yn cynnwys barn Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar y cynnydd a wnaed gan y DU wrth weithredu'r Confensiwn.

Cyhoeddwyd casgliadau diwethaf y Pwyllgor[8] am y DU yn 2008[9] a rhoddwyd sylw i'r rheini wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig hwn. Bydd y set nesaf o gasgliadau gan y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r DU gyflwyno'i hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn 2014 ar gynnydd wrth weithredu'r CCUHP.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a fydd angen newid y Cynllun a fydd mewn grym ar y pryd yng ngoleuni'r sylwadau hynny. Mae hyn un o ofynion y Mesur[10].

Wrth adolygu'r Cynllun, rhaid i Weinidogion hefyd ystyried unrhyw adroddiadau eraill, awgrymiadau, argymhellion cyffredinol neu ddogfen arall a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

---

[5] Adrannau 3(4) a 3(5), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
[6] Adran 3(6), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

[7] Adran 3(1), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
[8] Arferent gael eu galw'n Ystyriaeth o Adroddiadau a gyflwynwyd gan Bartïon Gwladol o dan erthygl 44 o'r CCUPH: Casgliadau.
[9] http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf.
[10] Adran 2(4), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Wrth baratoi'r Cynllun hwn rhoddodd Gweinidogion sylw i Sylw Cyffredinol Rhif 14[11] (2013) Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawl y plentyn i'r hyn sydd orau iddo ef neu hi fod yn ystyriaeth sylfaenol. Cred Llywodraeth Cymru fod y Cynllun Hawliau Plant yn cysylltu'n uniongyrchol ag erthyglau cyffredinol y Confensiwn sy'n ymwneud â Sylw Cyffredinol Rhif 14 ac yn rhoi mwy o effaith iddynt. Mae manylion pellach ar Sylw Cyffredinol Rhif 14 a sut y cred Llywodraeth Cymru ei fod yn gweithredu'r Sylw Cyffredinol i'w cael yn atodiad 3.

Bydd Gweinidogion yn parhau i roi sylw i ddogfennau perthnasol wrth i ganllawiau pellach gael eu datblygu i staff Llywodraeth Cymru ar ystyr yr hawliau o fewn y Confensiwn.

Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion, wrth baratoi Cynllun newydd neu newid un sy'n bod eisoes, i roi sylw i ddogfennau a materion eraill y barnwn eu bod yn berthnasol[12]. Mae hwn yn gategori eang, ac mae iddo'r potensial o allu cynnwys unrhyw ddogfen os yw ei chynnwys yn berthnasol i drefniadau'r Gweinidogion ar gyfer rhoi sylw dyledus i'r CCUHP. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru neu Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru).

Bydd Gweinidogion Cymru'n datgan yn benodol yn yr adroddiad cydymffurfio nesaf os credir bod angen adolygiad o'r Cynllun Hawliau Plant neu beidio, gan amlinellu'r sail resymegol dros y farn honno.

Nid yw'r atodiadau a'r dolenni i'r Cynllun hwn yn rhan o'r Cynllun, ond maent yn ceisio cefnogi'r gwaith o'i weithredu. Mae hyn yn rhoi lle i hyblygrwydd, er enghraifft, os oedd angen am ad-drefnu prosesau ac angen i gynnwys yn ddigonol Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant neu brosesau eraill.

Ni fyddai'n ofynnol felly i welliannau i'r atodiadau hyn gydymffurfio ag adran 3 o'r Mesur. Caiff egwyddorion sylfaenol a'r disgwyliadau ar Weinidogion a swyddogion eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Cynllun ac nid oes modd eu diwygio heb gyflawni'r mecanweithiau ffurfiol o dan y Mesur.

Gelir ychwanegu atodiadau ychwanegol cyn belled ag nad ydynt yn newid nac yn effeithio ar unrhyw beth a gynhwysir yn y Cynllun.

## 14. Pwerau Gweinidogion i newid deddfwriaeth bresennol o dan y Mesur

Mae Adran 6 o'r Mesur yn cynnwys pŵer i Weinidogion ddiwygio deddfiad neu offeryn uchelfreiniol, os daw adroddiad a gyhoeddir gan Weinidogion o dan y Mesur neu'r Cynllun i'r casgliad y byddai hynny'n ddymunol, i'r diben o roi effaith pellach neu well i'r hawliau a'r ymrwymiadau a nodir yn Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau.

---

[11] http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/comments.htm.
[12] Adran 3(2), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Ni all Gweinidogion wneud gorchymyn oni bai bod y ddarpariaeth y mae'n ei chynnwys o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i Weinidogion hefyd ymgynghori â'r bobl hynny y credant eu bod yn berthnasol.

### 15. Pwy sy'n sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon?

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau penodol ar gyfer sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth weithredu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau, a rolau gwahanol grwpiau o fewn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi.

#### Cyfrifoldebau a Rolau'r Gweinidogion

Mae'r Mesur yn gosod y ddyletswydd ar Weinidogion. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth weithredu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau a rhaid iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r ddyletswydd wrth wneud eu penderfyniadau.

Gweinidogion sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i rywun arall, megis staff Llywodraeth Cymru.

Gweinidogion hefyd sy'n gyfrifol am y trefniadau a amlinellir yn y Cynllun hwn, ac am sicrhau bod y trefniadau hynny'n gweithio'n effeithiol.

Mae Gweinidogion yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt y ddyletswydd, gan fod rhaid iddynt gyflwyno adroddiad Llywodraeth Cymru ar eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i'r Cynulliad. Gellir hefyd alw ar Weinidog i roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad er mwyn esbonio'r hyn maent wedi'i wneud a gellir gofyn iddynt ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad.

Mae hefyd nifer o grwpiau ac unigolion allweddol sy'n cynorthwyo Gweinidogion i gydymffurfio â'u dyletswydd o dan y Mesur.

**Rolau a Chyfrifoldebau Grŵp Gweithredu'r Cynllun Hawliau Plant**

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal grŵp mewnol, sy'n cael ei adnabod ar hyn o bryd fel Grŵp Gweithredu'r Cynllun Hawliau Plant.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Timau Gweithrediadau* o bob maes yn Llywodraeth Cymru sydd â Chyfarwyddwr Cyffredinol, a'i brif swyddogaeth yw goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cynllun hwn ar draws y meysydd hynny. Mae rôl y grŵp yn cynnwys:

- Rhoi cyngor a chanllawiau i Dîm Gweithredu'r Mesur i'w helpu i wella'r prosesau i weithredu'r Mesur a'u helpu i lywio eu gwaith, yn ogystal â dod ag aborth o'u maes ynghylch sut y gweithredir y Mesur a rhannu gwybodaeth am unrhyw arferion da neu anawsterau sydd angen sylw;

- Gweithio ar ran pob Cyfarwyddwr Cyffredinol i symud ymlaen â'r gwaith o weithredu'r Mesur a'r Cynllun a rhoi adborth ar sut y gweithredir y Cynllun ar draws maes pob Cyfarwyddwr Cyffredinol;

- Gweithio ar y cyd i gefnogi a chyngori ar fynd ati'n effeithiol i godi ymwybyddiaeth o'r Mesur a'i oblygiadau ar draws maes pob Cyfarwyddwr Cyffredinol;

- Gweithredu fel 'Pencampwyr' hawliau plant a chodi ymwybyddiaeth o'r Mesur ar draws meysydd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol;

- Gweithio ar y cyd i rannu'r arferion gorau a'r anawsterau y daethpwyd ar eu traws er mwyn gwella'r broses weithredu a datblygu'r prosesau i alluogi a sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi sylw i unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu;

- Cynorthwyo wrth ddarparu tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus a bod y rheolaethau allweddol ar waith, a fydd yn helpu darparu gwybodaeth i'r Gweinidogion ar gyfer adroddiadau gofynnol ar gydymffurfiaeth;

- Cynorthwyo gyda ffurfio a lledaenu unrhyw bolisïau, arferion a gweithdrefnau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r Cynllun;

- Cyfrannu at ddatblygu unrhyw Gynllun pellach.

***Timau Gweithrediadau***

*Mae gan bob adran o fewn Llywodraeth Cymru dîm gweithrediadau. Î ‡´§ timau gweithrediadau yw sicrhau bod ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i Weinidogion yn drylwyr a dibynadwy a'i fod yn cydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion, gan gynnwys rhai gweithdrefnol ac ariannol.*

**Cyfrifoldebau a Rolau Tîm Gweithredu'r Mesur**

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal tîm o staff, sy'n cael ei adnabod ar hyn o bryd fel Tîm Gweithredu'r Mesur, sy'n arwain y gwaith o weithredu'r Mesur. Mae eu gwaith yn cynnwys datblygu prosesau mewnol a fydd yn sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth a chyngor, datblygu offerynnau a mecanweithiau cofnodi i helpu staff Llywodraeth Cymru i ystyried y Confensiwn yn eu gwaith ac yn eu dewisiadau a'u cyngor i Weinidogion.

Maent yn gyfrifol am y canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn, y Mesur a'r dyletswyddau o'i fewn;
- Cynghori ar weithredu'r Mesur a'r Cynllun;
- Comisiynu, cydgysylltu a chefnogi hyfforddiant;
- Monitro'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant wyneb yn wyneb neu'r e-hyfforddiant ar y CCUHP a sylw dyledus – cynghori'r Grŵp Gweithredu ar ffyrdd o gynyddu'r niferoedd os oes angen;
- Cynghori staff Llywodraeth Cymru a'u cyfeirio at ffynonellau perthnasol o wybodaeth;
- Cynghori staff os ydynt yn ansicr a yw'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ofynnol ar gyfer penderfyniad neu ddarn o waith penodol;
- Cymryd samplau o benderfyniadau ynghylch datblygu polisi a deddfwriaeth, fel rhan o broses fonitro a yw Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus;
- Paratoi adroddiadau ar gydymffurfiaeth Gweinidogion â'r ddyletswydd sylw dyledus;
- Hwyluso Grŵp Gweithredu'r Cynllun Hawliau Plant;
- Comisiynu a chychwyn gwaith datblygu ar faterion fel dewisiadau ar gyfer monitro a gwerthuso;
- Arwain ar y gwaith o hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn o dan Adran 5 o'r Mesur;
- Cynghori Adrannau ar weithredu Adran 6 o'r Mesur a sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a allai roi mwy o effaith i'r CCUHP yn cael eu hymgorffori i'r adroddiad cydymffurfio;

- Sefydlu a chynnal cronfa ddata a phrosesau cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant; a

- Monitro'r ffordd y gweithredir y broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ym mhob adran.

Bydd y Tîm Gweithredu'n parhau i ddatblygu, a chyfrannu at, adnoddau a thempledi sy'n cynorthwyo staff drwy gydol y broses, er enghraifft, llawlyfr deddfwriaeth i'r rheini sy'n ymwneud â datblygu darnau newydd o ddeddwriaeth.

**Cyfrifoldebau a Rolau Penaethiaid yr Is-adrannau o fewn Adrannau Llywodraeth Cymru**

Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y dewisiadau a'r cyngor a roddir gan eu staff i Weinidogion, fel y gall Gweinidogion wneud penderfyniadau, o ansawdd da ac wedi rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn. Mae eu cyfrifoldeb yn cynnwys sicrhau bod pawb o'r staff, gan eu cynnwys eu hunain, yn meddu ar ddigon o wybodaeth o'r Confensiwn ac o oblygiadau'r Mesur i'w gwaith.

**Cyfrifoldebau a Rolau Staff Llywodraeth Cymru**

Mae'r dyletswyddau o fewn y Mesur yn berthnasol i bob Gweinidog ac i faes pob Gweinidog. Mae staff Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflogi i gynorthwyo Gweinidogion wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth ac wrth wneud penderfyniadau eraill. Maent hefyd yn gweithredu penderfyniadau Llywodraeth Cymru ac maent o dan gyfarwyddyd y Gweinidogion yn y pen draw.

Mae staff Llywodraeth Cymru'n helpu Gweinidogion i roi sylw dyledus i'r Confensiwn pan fo Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau, gan eu bod yn rhoi dewisiadau a chyngor ynglŷn â swyddogaethau Gweinidogion.

Bydd Gweinidogion yn disgwyl y bydd eu staff wedi ystyried yn briodol ac wedi rhoi sylw dyledus i'r CCUHP cyn iddynt roi gwybodaeth, cyngor, dewisiadau ac argymhellion. Bydd staff Llywodraeth Cymru'n cael hyfforddiant ac adnoddau eraill yn ol yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth a chyngor addas i Weinidogion.

Mae'n bwysig iawn fod y staff yn rhoi ystyriaeth gytbwys i'r Confensiwn, cyn iddynt ddechrau datblygu deddfwriaeth, polisïau neu ddarnau eraill o waith ac wedyn ar adegau allweddol drwy gydol y broses er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion. Rhaid iddynt fod yn glir ynghylch sut y dylent roi sylw dyledus a'r broses y maent wedi ei dilyn er mwyn i hyn gael ei weithredu cyn rhoi dewisiadau a chyngor i Weinidogion.

Byddant yn ystyried y graddau y mae'r Confensiwn yn berthnasol i benderfyniad y gofynnir i Weinidog ei wneud ac a oes angen Asesiad o'r

Effaith ar Hawliau Plant. Os yw staff yn credu bod effaith ar blant, byddant yn gyfrifol am y canlynol:

- Cyflawni asesiadau gan ddefnyddio Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Hawliau Plant;

- Ystyried sut i adlewyrchu'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r canlyniad(au) wrth gyflwyno dewisiadau a chyngor i Weinidogion ac wedyn gofyn iddynt wneud penderfyniad; a

- Sicrhau bod cofnodion o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, y dewisiadau a'r cyngor a roddwyd i Weinidogion a phenderfyniad dilynol y Gweinidog, sy'n dangos y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r CCUHP, yn cael eu cadw ar ffeil.

Rhoddir hyfforddiant i staff i'w helpu i ddeall a chyflawni eu rôl.

**Pobl eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru**

Mae staff Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos ag arbenigwyr ar hawliau plant a'r CCUHP. Mae hyn yn cynnwys y Rhwydwaith Gwneud Pethau'n Iawn. Mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o swyddfa'r Comisiynydd Plant, amrywiol elusennau plant, Prifysgolion a llywodraeth leol. Mae cylch gorchwyl y Rhwydwaith yn cynnwys:

- Awgrymu ffyrdd o weithio ar y cyd ac archwilio cyfleoedd i fod yn arloesol er mwyn helpu cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc;

- Rhoi arbenigedd a chyngor;

- Adnabod unrhyw anawsterau posibl ac a all godi a helpu i'w datrys;


- Adnabod sefydliadau cyfrifol arweiniol i weithio gyda Llywodraeth Cymru;

- Cynghori Llywodraeth Cymru ar yr agweddau ymarferol, gan gynnwys adnabod rhwystrau posibl a dulliau ar gyfer eu goresgyn; a


- Gweithio gyda swyddogion ar fonitro ac adolygu.

**Atodiad 1 – Siartiau Llif Prosesau**


# DEDDFWRIAETH - BILIAU
## Oes angen imi wneud Asesiad o'r Effaith ar Hawliau?



# DEDDFWRIAETH – OFFERYNNAU STATUDOL
## Oes angen imi wneud Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?



# ANNEDDFWRIAETHOL: Oes angen imi wneud Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?



Atodiad 2

# Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | |
| **Rhif SF / LF cysylltiedig** (os yw'n berthnasol) | |
| **Enw'r Swyddog:** | |
| **Adran:** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Llofnod:** | |

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

**Noder.** Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




## Cam 1. Beth yw’r darn o waith a’i amcan(ion)?

Efallai yr hoffech gynnwys:

- Disgrifiad byr o’r darn o waith
- Beth yw’r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?
- Pwy yw’r rhai y bwriedir iddynt elwa?
- A yw’n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?
- A fydd y gwaith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant, os felly, wnewch chi ddisgrifio’r grŵp yr effeithir arnynt?

## Cam 2. Dadansoddi’r effaith

- Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol i blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?
- Lle bo effeithiau negyddol; pa fesurau cydbwyso y gall fod eu hangen i liniaru unrhyw effaith negyddol?
- Sut fyddwch chi’n gwybod os yw eich darn o waith yn llwyddiant?
- Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?
- Ydych chi wedi ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor?
- Oes angen ichi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogi?
- Oes angen ichi baratoi fersiynau addas i blant o gynigion/ymgyngoriadau?

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Gan ddibynnu ar effaith eich darn o waith, defnyddiwch eich doethineb i farnu:

- Pa rai o erthyglau'r CCUHP sydd **fwyaf** perthnasol i'r darn o waith? Ystyriwch yr erthyglau y mae eich darn o waith yn effeithio arnynt. http://uncrcletsgetitright.co.uk/images/PDF/UNCRCRights.pdf
- Sut ydych chi'n gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau?
- Pa agweddau o fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?
- Beth yw'r prif faterion y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ganolbwyntio arnynt?
- A yw'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP?
- Os nad ydyw, a oes unrhyw ddewisiadau eraill i'r darn presennol o waith wedi cael eu hystyried?

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

- Y ffyrdd y mae'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP.
- A oes unrhyw wrthdaro ag erthyglau'r CCUHP o fewn y cynnig wedi cael eu darganfod?
- Yr effaith ehangach: a yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw feysydd polisi eraill?
- O safbwynt unrhyw effeithiau negyddol a achosir gan y cynnig; a all Gweinidogion ddangos eu bod wedi dyrannu cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl?
- Pa ddewisiadau a chyngor y dylid eu rhoi i Weinidogion ar y cynnig?
- O safbwynt eich cyngor i symud ymlaen neu beidio gyda'r darn o waith, a oes unrhyw gyngor pellach y dylech ei roi i'r Gweinidog?
- A yw'n briodol cynghori'r Gweinidog i ailystyried y penderfyniad yn y dyfodol, yn enwedig gan gadw mewn cof yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a pha adnoddau a all fod ar gael yn y dyfodol?
- Ydych chi wedi rhoi cyngor i Weinidogion ar LF/SF ac wedi cadarnhau paragraff **26**?
- A yw'r cyngor wedi'i gefnogi gan esboniad o'r materion allweddol?

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

**Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share**

Dylid cadw tystiolaeth sy'n cadarnhau:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd **(Camau 1-3 uchod)**
- Y dadansoddiad a wnaed **(Camau 1-3 uchod)**
- Y dewisiadau a ddatblygwyd ac a archwiliwyd **(Camau 1- 3 uchod)**
- Sut mae'r canfyddiadau / canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi? **(Cam 4 uchod)**
- 'Dweud y stori' o sut y gwnaed yr asesiad a'r canlyniadau **(Cam 4 uchod)**

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Wrth adolygu'r darn o waith, ystyriwch unrhyw fonitro, gwerthuso neu gasglu data sydd wedi cael ei wneud:

- A yw eich darn o waith wedi cael yr effaith a fwriadwyd fel y nodir yng Ngham 2?
- Ydych chi wedi cyd-drafod â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu arfer yn gweithio?
- Os nad ydych, oes angen newidiadau.
- Nodwch lle gellir gwneud gwelliannau i leihau unrhyw effaith negyddol.
- Nodwch unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, gan gadw mewn cof unrhyw adnoddau ychwanegol a all fod ar gael ar hyn o bryd.

**<u>Cyllidebau</u>**

| | |
|---|---|
| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?**<br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | **Oes / Nac Oes** |
| **Rhowch unrhyw fanylion:** | |

**<u>Monitro ac Adolygu</u>**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Oes / Nac oes** |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | **Mis / Blwyddyn** |

See next page for a Summary List of the UNCRC articles

Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau'r CCUHP

**Atodiad 3: Sylw Cyffredinol 14**

**Cyhoeddi Sylw Cyffredinol Rhif 14 (2013) y Pwyllgor ar Hawliau'r Plant ar hawl y plentyn i'r hyn sydd orau iddo ef neu hi fod yn ystyriaeth sylfaenol.**

Wrth adolygu'r Cynllun, mae Llywodaeth Cymru wedi ystyried Sylw Cyffredinol Rhif 14 (2013) y Pwyllgor ar Hawliau'r Plant ar hawl y plentyn i'r hyn sydd orau iddo ef neu hi fod yn ystyriaeth sylfaenol. Cred Llywodraeth Cymru fod y Cynllun diwygiedig yn cysylltu'n uniongyrchol â'r adrannau canlynol yn benodol ac yn rhoi mwy o effaith iddynt:

*'Dylai hawl y plentyn i'r asesiad o'r hyn sydd orau iddo ef neu hi, ac i hynny fod yn ystyriaeth sylfaenol, gael ei chynnwys yn amlwg ym mhob deddfwriaeth berthnasol, nid yn unig mewn cyfreithiau sy'n ymwneud yn benodol â phlant. Mae'r rhwymedigaeth hon yn ymestyn hefyd at gymeradwyo cyllidebau, gan fod gofyn mabwysiadu persbectif buddiannau gorau'r plentyn wrth eu paratoi a'u datblygu er mwyn iddynt fod yn sensitif i hawliau plant'*.[13]

Yn gynwysedig o fewn natur a chwmpas y rhwymedigaethau o dan y gorchymyn cyffredinol i wladwriaethau perthynol mae:

*'Y rhwymedigaeth i sicrhau bod pob penderfyniad barnwrol a gweinyddol yn ogystal â pholisïau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant yn dangos bod buddiannau gorau'r plentyn wedi bod yn ystyriaeth sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys disgrifio sut mae'r buddiannau gorau wedi cael eu harchwilio a'u hasesu, a pha bwysau sydd wedi cael eu rhoi iddynt yn y penderfyniad.'*

Unwaith eto, mae'r Cynllun yn fecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau hyn, yn enwedig yn wyneb y cyfeiriad cysylltiedig at Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant isod:

*'O safbwynt mesurau gweithredu, mae sicrhau bod budd pennaf y plentyn yn ystyriaeth sylfaenol mewn deddfwriaeth a datblygu a gweithredu polisïau ar bob lefel o Lywodraeth yn gofyn am broses barhaus o asesu'r effaith ar hawliau plant er mwyn rhagweld effaith unrhyw ddeddf, polisi neu ddyraniad cyllideb ar blant a'u mwynhad o'u hawliau, a gwerthusiad o'r effaith ar hawliau plant er mwyn gwerthuso effaith gwirioneddol eu gweithredu'*

[13] http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/TBSearch.aspx?Lang=en&TreatyID=5&DocTypeID=11

## Atodiad 4

**Rhestr (nad yw'n holl-gynhwysol) o gytuniadau rhyngwladol perthnasol eraill a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU:**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (1966) a'i brotocolau dewisol;
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (1966);
- Y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Ffurf o Wahaniaethu ar sail Hil (1965)
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Ffurf o Wahaniaethu yn erbyn Merched (1979) a'i brotocol dewisol (1999)
- Y Confensiwn yn erbyn Poenydio a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (1984)